# Astudiaeth achos Bywyd Milwr Rhufeinig

Fel rhan o 'Kids in Museums Take Over Day' yn Dachwedd 2015 caiff ddisgyblion o St Woolos daith o amgylch yr Amgueddfa, gan gynnwys ymweliad arbennig i'r ardal casglu 'tu ôl i'r llenni'. Roedd y plant yn gweld ac yn eu cynnal gwrthrychau Rhufeinig sydd ddim fel arfer yn cael eu gweld gan y cyhoedd. Gan ddefnyddio hyn roeddent wedi'i ddysgu fel ysbrydoliaeth, yna wnaeth y disgyblion, ysgrifennu, ffilmio a serennu yn yr ailddeddfiad gwych o fywyd milwr Rhufeinig.

**Creu Fideo:** Defnyddiwch yr adnoddau yma hon i'ch helpu i gynllunio a chreu fideo ar bwnc o'ch dewis ar gyfer ei uwchlwytho i Cagliad y Werin Cymru. Gallwch ddefnyddio'r cynnwys ar y wefan yma ar gyfer eich ymchwil. Crëwch *gasgliad* i gynnwys y fideo, ac unrhyw wrthrychau i gyd-fynd a'r fideo, a *stori* i ddweud mwy am y pwnc. Dysgwch sut i uwchlwytho *eitemau* a chreu *casgliadau* gan ddefnyddio ein canllawiau hawdd eu dilyn i ddefnyddwyr. Gweler y Blwch Offer i Athrawon am help ar sut i wneud y mwyaf o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol wrth ffurfio prosiect.

## Dyma sut y gwnaethon ni'r fideo

Yn ystod y dydd, daeth disgyblion i ymweld ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion. Cawsant hyfforddiant gorymdeithio, cyfle i wisgo arfwisg replica a dysgu am fywyd milwr Rhufeinig yn ystafell y barics. Cawsant gyfle hefyd i fynd tu ôl i'r llenni gyda churadur i edrych ar wrthrychau Rhufeinig fel arfau, dillad a gemau'r milwyr. Maen nhw wedi tynnu lluniau o'r eitemau hyn i'w cyhoeddi ar Casgliad y Werin Cymru, ynghyd â'r ffilm.

Yna, aethant ati i weithio fel tîm i greu'r fideo. Roeddent yn gweithio gyda hwyluswyr ac athrawon i ddewis golygfeydd er mwyn cael cyflwyno Bywyd Milwr Rhufeinig o'u safbwynt nhw. Ysgrifennodd y grŵp eu sgript eu hunain a dewis cast ar gyfer pob golygfa.

Ffilmiwyd y fideo dau funud ar iPad, a golygwyd y fideo ar iMovie. Mae'r fideo a'r ffotograffau wedi'u cyhoeddi ar Casgliad y Werin fel *eitemau* unigol, ac yna wedi'u grwpio fel *casgliad*. Cawsom ganiatâd i ffilmio a thynnu lluniau o'r disgyblion, gan lenwi'r ffurflenni caniatâd ar y diwrnod. Roedd yr holl ddelweddau yn unol â hawlfraint am eu bod wedi'u creu gan yr ysgol ac yn cynnwys gwrthrychau sy'n berchen i'r Amgueddfa.

Isod mae templed bwrdd stori a chyngor defnyddiol ar gynllunio fideo.

## Sgriptio a chreu Bwrdd Stori ar gyfer Casgliad y Werin

Defnyddiwch y templed yma i gynllunio fideo am bwnc o'ch dewis chi. Casglwch y wybodaeth angenrheidiol, ac unrhyw wrthrychau yr hoffech hwyrach dynnu llun ohonynt er mwyn eu harddangos gyda'r fideo ar y wefan. Yna llunion gynllun stori!

### Cynllun Stori

Mae'r cynllun stori yn cynnwys yr holl bynciau yr hoffech eu trafod yn y fideo. Gall hefyd gynnwys rhestr o olygfeydd posib, a llinellau i'w ddweud yn y golygfeydd hynny. Gall y dysgwyr benderfynu beth sydd yn digwydd ym mhob golygfa ac ysgrifennu sgript unai gan ddefnyddio'r llinellau awgrymedig, neu trwy greu script eu hunain ar gyfer pob golygfa o'r dechrau.

**Cyflwyniad:**

**Pynciau:**

**Diweddglo:**

**Templed Bwrdd Stori**

| Rhif | Golygfa | | Script | Actorion |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | |
| 2 | | | | |
| 3 | | | | |
| 4 | | | | |
| 5 | | | | |
| 6 | | | | |
| 7 | | | | |
| 8 | | | | |